# Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Fynwy 2018-2033 Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir

Annwyl Syr/Fadam

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Fynwy 2018-2033

Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir

Yn unol gyda Rheoliad 15 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygir), mae Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlD newydd (a gafodd ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad/ymgysylltu cyhoeddus statudol mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 1af Rhagfyr 2022), ynghyd â'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'r dogfennau yma, ynghyd â Chrynodeb a fersiwn Hawdd Ei Deall o'r Strategaeth a Ffefrir, ar gael nawr ar wefan y Cyngor RLDP– Newyddion & Cyfredol - Monmouthshire Mae copi o'r hysbysiad ffurfiol ar gyfer yr ymgynghoriad wedi ei atodi er gwybodaeth.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, rydym hefyd yn gwahodd sylwadau ar y Safleoedd Ymgeisiol sydd wedi eu rhestru yn y Gofrestr o Safleoedd sydd yn amlinellu'r safleoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r Ail Alwad ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol( Roedd yr Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisiol wedi eu cynnal rhwng 5ed Gorffennaf a'r 31ain Awst 2021) . Mae'r Safleoedd Ymgeisiol sydd wedi eu rhestru wedi bod yn rhan o asesiad lefel uchel sydd wedi adnabod y safleoedd hynny a fydd yn mynd i'r cam nesaf a'r rhai na sydd yn mynd i'r cam nesaf ar gyfer y broses o asesu Safleoedd Ymgeisiol. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd gyda'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol, ac mae'r ddwy ddogfen ar gael drwy gyfrwng y ddolen isod: RLDP– Newyddion & Cyfredol - Monmouthshire

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael hefyd yn Neuadd y Sir, Brynbuga (Er mwyn darllen y ddogfennau yn Neuadd y Sir, cysylltwch gyda'r Tîm Polisi Cynllunio (manylion i'w gweld isod) er mwyn gwneud apwyntiad), Hybiau Cymunedol CSF (y Fenni, Cil-y-coed, Trefynwy a Brynbuga), a Llyfrgell Gilwern yn ystod oriau agor arferol (Ewch i wefan y Cyngor am yr amseroedd agor).

Bydd nifer o ddigwyddiadau cymunedol ac ar gyfer rhanddeiliaid ('sesiynau galw heibio') hefyd yn cael eu cynnal ar hyd a lled y Sir yn ystod y cyfnod ymgynghori, fel sydd wedi eu rhestru isod, a bydd yna gyfle i siarad gyda'r swyddog cynllunio am y dogfennau ymgynghori. Mae mwy o fanylion am y digwyddiadau yma ar gael ar wefan y Cyngor drwy gyfrwng y ddolen ganlynol: RLDP– Newyddion & Cyfredol - Monmouthshire

- Sesiwn Ymgysylltu Rithwir, 8fed Rhagfyr 2022, 6pm - 7:30pm

- Y Fenni – Neuadd y Farchnad, 12fed Rhagfyr 2022, 2pm - 7pm
- Trefynwy, Neuadd y Sir, 15fed Rhagfyr 2022, 2pm - 7pm
- Neuadd Sir Brynbuga, 19eg Rhagfyr 2022, 2pm - 7pm
- Sesiwn Ymgysylltu Rithwir, 10fed Ionawr 2023, 2pm - 3:30pm
- Magwyr, Eglwys y Bedyddwyr, 11eg Ionawr 2023, 2pm - 7pm
- Cas-gwent, 'Board School', 12fed Ionawr 2023, 2pm - 7pm
- Cil-y-coed, Neuadd y Côr, 18fed Ionawr 2023, 2pm - 7pm
- Neuadd y Pentref, Rhaglan, 19eg Ionawr 2023, 2pm - 7pm

Mae'r Strategaeth a Ffefrir, Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ar gael ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dydd Llun 5ed Rhagfyr 2022 a dydd Llun 30ain Ionawr 2023. Cyflwynwch unrhyw sylwadau drwy gyfrwng y ffurflen sylwadau ar-lein (RLDP– Newyddion & Cyfredol - Monmouthshire), ffurflen sylwadau safonol sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu yn y lleoliadau sydd wedi eu rhestru uchod RLDP– Newyddion & Cyfredol - Monmouthshire . Dylid e-bostio ffurflenni sydd wedi eu cwblhau at planningpolicy@monmouthshire.gov.uk neu drwy eu postio at - Polisi Cynllunio, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA.

Rhaid cyflwyno'r holl sylwadau erbyn canol nos ar ddydd Llun 30ain Ionawr 2023. Nid oes modd derbyn unrhyw ymatebion ar ôl y dyddiad hwn. Noder os gwelwch yn dda y bydd y sylwadau ar gael i'w harolygu'n gyhoeddus ac ni fyddant yn cael eu trin yn gyfrinachol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod neu unrhyw agwedd o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, yna cysylltwch gyda'r Tîm Polisi Cynllunio ar 01633 644429 neu e-bostiwch planningpolicy@monmouthshire.gov.uk

Yn gywir



Rachel Lewis

Rheolwr Polisi Cynllunio